CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30yh DYDD LLUN 5ed HYDREF 2026

1. **CROESO** – Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Glena Humphrey, bawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL** – Cynghorwyr Glena Humphrey, Irwedd Griffiths, Tudur Roberts, Gwenda Davies, Goronwy R. Williams, D Gwyn Jones, Gethin Owen, Cynghorydd Sir Ifor G. Lloyd a'r Clerc Mel Jones.

3. **YMDDIHEURIADAU** – Cynghorydd Hefin Williams, Gwawr Thomas a John Evans.

4. **DATGANIAD O FUDDIANT**
   Atgoffir yr aelodau bod yn rhaid iddynt ddatgan bodolaeth a natur unrhyw fuddiannau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi datgan ei fod yn aelod o'r pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond gall ateb cwestiynau sy'n ymwneud â rheoliadau a pholisïau cynllunio.

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

5. **COFNODION**
   Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 fed Medi 2026. Eglurodd y Cynghorydd Gwyn Jones mai £4,050 oedd y grant a

ddyfarnwyd i Eglwys Sant Mihangel, ac nid £4,000 fel y nodwyd yng nghofnodion y cyfarfod. £4,050 oedd y swm ar yr anfoneb, er mai £4,000 oedd y swm y gofynnwyd amdano. Bydd y cofnodion yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

Cymeradwywyd a llofnodwyd y cofnodion. (Cynigiwyd gan y Cynghorydd Gwyn Jones ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy Williams)

6. **MATERION YN CODI**

Dim materion yn codi

7. CYLLID

Cynhyrchwyd y Datganiadau Ariannol misol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 20fed Medi 2026

Yn diweddu 20fed Medi 2026

(1) **Cyfrif Cymunedol** = £10,761.67 (Balans a ddygwyd ymlaen)
Arian a dderbyniwyd = **£**250.00 (Adaliad grant Diwrnod Hwyl)

Arian a dalwyd:
£400.00 (Cyflog y Clerc)
£213.17 (Cyflog y Clerc)
£500.00 (Grant Mynwent Trofarth)

CYFANSWM – £1,113.17 – Talwyd allan

£250.00 – Talwyd i mewn

Cyfrif Cymunedol = £9,898.50 (Balans a ddygwyd ymlaen)

(2) **Cyfrif Busnes** = £4,147.16 (Balans a ddygwyd ymlaen)
Arian a dalwyd = DIM
Arian a dderbyniwyd = £13.23 (Llog at 3/9/26)

Cyfrif Busnes = £4,160.39 (Balans a ddygwyd ymlaen)

Cyfanswm = **£14,058.89** (Balans a ddygwyd ymlaen)

Nododd yr aelodau'r sefyllfa ariannol a balansau'r cyfrifon banc fel y nodir uchod. Cytunodd pawb fod y cyfrifon yn gywir.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol, mae bellach yn angenrheidiol i'r Cyngor gymeradwyo pob anfoneb cyn gwneud unrhyw daliadau ar-lein.

Derbyniwyd anfoneb BT am **£109.33**. Cytunwyd y gellid talu'r anfoneb.

Derbyniwyd anfoneb gan Cradur.com am **£170.00** am waith rheoli'r wefan am y flwyddyn**.** Cytunwyd y gellid talu'r anfoneb.

Adroddodd y Clerc fod Mr Ken Baker, y Lleng Brydeinig Frenhinol, wedi cysylltu ynghylch y torchau ar gyfer y ddwy Wasanaeth Coffáu a gynhelir ar 8 Tachwedd 2026 ym Metws yn Rhos ac yn Llanelian. Cytunwyd i brynu dwy dorch am gyfanswm o £54.00. Ysgrifennwyd siec am y swm hwn.

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad gan nodi bod yr holl wybodaeth ynghylch y dyfarniad cyflog cenedlaethol wedi'i hanfon at Aston Hughes, a fydd yn trefnu i'r argymhellion gael eu gweithredu.

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad gan nodi bod y Diwrnod Hwyl a gynlluniwyd ym Metws yn Rhos wedi ei ganslo oherwydd llifogydd yn y Pafiliwn Chwaraeon. Roedd y Gymdeithas Chwaraeon wedi ad-dalu'r grant o £250.00 a ddyfarnwyd iddynt.

Roedd y grant o £500.00 i Fynwent Trofarth wedi ei dalu.

8. GOHEBIAETH

Derbyniwyd

1. Derbyniwyd gwahoddiad gan Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Trystan Lewis, i Wasanaeth Sul Dinesig y Cadeirydd yn Eglwys Llannefydd ddydd Sul, 18 Hydref 2026, am 2.00 o'r gloch y prynhawn. Yn anffodus, nid oedd neb ar gael i fynychu. Bydd y Clerc yn ymateb yn unol â hynny ac yn dymuno diwrnod llwyddiannus i'r Cadeirydd.

2. Derbyniwyd e-bost gan Brosiect Fferm Wynt Alltraeth Mona, a fynegodd ddymuniad i siarad â'r Cynghorwyr. Yn anffodus, nid oedd cynrychiolwyr y prosiect yn gallu mynychu cyfarfod heno. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cyfarfod â'r cynrychiolwyr ac yn cyflwyno adroddiad yn ôl i'r Cyngor Cymuned.

3. Derbyniwyd e-bost gan y Gymdeithas Placiau Porffor yn diolch i'r Cyngor Cymuned am ei gymorth gyda'r seremoni ddadorchuddio'r Plac Porffor i Mary Lloyd Wynne ddydd Iau, 24 Medi, am 12.00 canol dydd yn Eglwys Sant Mihangel, Betws-yn-Rhos. Roedd y Cynghorwyr Ifor Lloyd a Goronwy Williams, ynghyd â'r Clerc, wedi mynychu'r seremoni.

4. Derbyniwyd e-bost gan y Gymdeithas Chwaraeon ynghylch yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn 2026. Roedd y Gymdeithas yn pryderu bod aelodau o'r cyhoedd yn dod â chŵn i'r lawnt fowlio a'r cae chwaraeon. Roedd y Gymdeithas Chwaraeon yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau bod rheolau ar waith i atal hyn rhag digwydd.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd gan y Cynghorydd Gwenda Davies y dylai'r Cyngor Cymuned gefnogi'r Gymdeithas Chwaraeon. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Irwedd Griffiths. Pleidleisiodd y Cynghorwyr yn unfrydol o blaid. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at ERF i roi gwybod iddynt am benderfyniad y Cyngor.

5. Derbyniwyd e-bost gan Anna Openshaw, Clerc Cyngor Cymuned Llysfaen, yn rhoi gwybod am arwyddion a oedd wedi'u gosod gan Kingdom Sanctuary Limited, mewn ymgais, mae'n ymddangos, i honni neu awgrymu bod y tir o dan eu rheolaeth. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau tebyg wedi digwydd yn ardal y Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn rhoi diweddariad i Anna Openshaw.

6. Adroddodd y Clerc fod Un Llais Cymru wedi dosbarthu fersiynau wedi ei diweddaru o'r Rheolau Sefydlog enghreifftiol. Archwiliwyd y ddogfen ac, yn dilyn mân ddiwygiad i bennu amser o 15 munud i annerch y Cyngor Cymuned, cytunwyd i'w mabwysiadu. Bydd y Clerc yn addasu'r ddogfen i adlewyrchu gofynion y Cyngor cyn y

cyfarfod nesaf, pan fydd y Rheolau Sefydlog yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol.

7. Derbyniwyd e-byst rheolaidd gan Un Llais Cymru, Gweithrediaeth Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill. Anfonwyd y rhai perthnasol ymlaen at y Cynghorwyr, ac mae copïau ar gael gan y Clerc.

Anfonwyd

1. Roedd y Clerc wedi anfon e-bost at ERF yn nodi bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi safbwynt Cymdeithas Chwaraeon Betws yn Rhos o ran gwahardd mynediad i gŵn o dan Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn 2026.
2. Ymatebion ac ymholiadau i Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
3. Llythyrau ac e-byst a dderbyniwyd ac yr oedd angen eu hanfon ymlaen at y Cynghorwyr.

9. **GRANTIAU**

Ceisiadau i'r Cyngor Cymuned

1.Roedd y grant blynyddol o £500.00 i Fynwent Trofarth ar gyfer torri'r gwair drwy gydol y flwyddyn wedi ei dalu.

2. Adroddodd y Clerc fod y Diwrnod Hwyl a gynlluniwyd ym Metws yn Rhos wedi'i ganslo oherwydd llifogydd yn y Pafiliwn Chwaraeon. Roedd grant o £250.00 wedi cael ei ad-dalu i'r Cyngor Cymuned

3.E-bost wedi ei yrru i Marie Wood, Cerebral Palsy Cymru, yn egluro na ellid gwneud cyfraniad ar hyn o bryd gan fod y praesept wedi ei bennu a'r arian wedi ei ddyrannu. Gofynnwyd i'r sefydliad wneud cais am gymorth ar ddechrau'r flwyddyn, pryd y gellid trafod y mater ac, os oedd y Cyngor yn dymuno cefnogi cyfraniad, gellid ei gynnwys yn y praesept.

4. Derbyniwyd e-bost gan Llio Cynfal, Urdd Gobaith Cymru (Cangen Conwy), yn gofyn am gyfraniad ariannol i gefnogi eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc ledled Conwy. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd na ellid gwneud cyfraniad ar hyn o bryd, gan fod y praesept eisoes wedi'i bennu a'r arian wedi'i ddyrannu. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y sefydliad yn gofyn iddynt gyflwyno cais am gymorth ar ddechrau'r flwyddyn, er mwyn gallu trafod y mater ac, os byddai'r Cyngor yn dymuno cefnogi'r cais am gyfraniad, gellid cynnwys y swm yn y praesept.

Ceisiadau gan y Cyngor Cymuned

Mae CVSC bellach yn cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i ganfod grantiau addas ar gyfer prosiectau amrywiol o fewn y gymuned.

10. **CYNLLUNIO**

http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/53671 **Ymgeisydd: Mr Elgan Jones**

Cynllun: Storfa fwyd, gwair a pheirianwaith newydd arfaethedig

Safle: Waen Waen Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NY

Adolygwyd y dogfennau.

Nodwyd bod ymateb Cymdeithas y Cerddwyr yn mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd y byddai'r datblygiad yn amharu ar lwybr cydnabyddedig.

Nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais, ond roeddent o'r farn y dylid gosod amod i sicrhau bod darpariaeth

briodol ar gyfer gwyro'r llwybr cydnabyddedig ac na fyddai'r llwybr yn cael ei rwystro heb ddarparu llwybr amgen.

Y Clerc I ddiweddaru yr Adran Gynllunio am safbwynt y Cyngor.

Cyfeirnod: 0/53589 Ymgeisydd: Mr J Fetherstonhaugh

Cynllun: Codi adeiladau atodol pren ar safle glampio, defnyddio'r tir ar gyfer gwersylla a gwaith cysylltiedig.

Safle: Bryn Neuadd, Hapus Yurt Croes Engan Road Trofarth Betws Yn Rhos LL22 8BT

Ar ol trafod y cynllun yn y cyfarfod ddiwethaf roedd y Clerc wedi gysylltu â'r Adran Gynllunio i ofyn iddynt sicrhau bod cynlluniau manwl ar gael, er mwyn galluogi'r Cynghorwyr i adolygu'r cais yn briodol gyda'r holl fanylion angenrheidiol.Roedd dim ateb wedi ei dderbyn gan yr Adran Cynllunio.

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/53579 Ymgeisydd: J D P Williams & CO

Cynllun: Cais ôl-weithredol ar gyfer stablau ac adeiladau cysylltiedig ar iard geffylau lawn ag wyth o stablau

Safle: Bryn Elian Farm, Dolwen, Betws Yn Rhos LL22 8NR

Wedi ei gymeradwyo hefo amodau.

Cyfeirnod: 0/53418 a 0/53417 Ymgeisydd: Mr and Mrs Macbeth

Cynllun: Gosod 2 ffenest newydd ar ochr y de ddwyrain, creu 2 ystafell wely i deulu, 2 ensuite newydd ac addasiadau mewnol i roi mynediad o'r landin i ystafell wely newydd

Safle: Ffarm Country House Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AR

Wedi ei gymeradwyo hefo amodau.

Cyfeirnod: 0/53261 **Ymgeisydd: Mr Elgan Jones**

Cynllun: Codi lagwn slyri

Safle: Bryn Dansi Bryn Dansi Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NS

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/53039 **Ymgeisydd: Ms R Jones**

Cynllun: Trosi adeiladau fferm diangen yn llety preswyl arfaethedig gan gynnwys estyniadau i'r adeilad

Safle: Nant Ucha Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EF

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52910 **Ymgeisydd: Mr Sean McBride**

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45158 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42343 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 2))

Safle: Tir yn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52909 **Ymgeisydd: Mr Sean McBride**

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42351 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 1))

Safle: Tir yn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Adroddodd y Clerc fod yr apêl a gyflwynwyd yn dilyn gwrthod y cais cynllunio yn Bryn Ffanigl Ganol, Betws yn Rhos, hefyd wedi ei wrthod.

11. **MATERION ARCHWILIO MEWNOL AC ALLANOL**

Adroddodd y Clerc fod adroddiad Archwilio Cymru wedi'i dderbyn yn dilyn cwblhau'r Archwiliad.

Ar sail yr archwiliad, ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder ynghylch y posibilrwydd, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- heb fodloni'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol;
- yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor; neu

- yn dangos nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

  Tynnodd Archwilio Cymru sylw at y ffaith ei bod yn ymddangos nad oedd Cynllun Hyfforddi ar waith. Fodd bynnag, mae Cynllun Hyfforddi yn bodoli ac mae i fod i gael ei adolygu ym mis Ionawr 2027. Mae'r cynllun yn rhestru'r holl hyfforddiant a gyflawnwyd. Bydd y Clerc yn anfon copi o'r Cynllun Hyfforddi at Archwilio Cymru.

  Nodwyd bod cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2026 wedi'u cymeradwyo ym mis Ebrill 2026, ond nad oeddent wedi'u cyhoeddi. Mae cofnodion cyfarfod mis Ebrill 2026 bellach wedi'u cyhoeddi ar y wefan.

  Argymhellodd Archwilio Cymru y dylai'r Cyngor adolygu'r gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb o leiaf unwaith bob chwarter.

  Cytunwyd y bydd y Cyngor Cymuned yn cynnal yr adolygiad hwn ym mhob cyfarfod o'r Cyngor fel rhan o'r diweddariad ariannol.

  Cytunwyd y dylid cyhoeddi'r hysbysiad yn cadarnhau bod yr archwiliad wedi'i gwblhau ar wefan y Cyngor ac ar y byrddau hysbysiadau.

  Adroddodd y Clerc fod ffurflen wedi'i hanfon at Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, gyda chopi at Archwilio Cymru, yn datgan bod y Cynghorwyr wedi gwrthod derbyn unrhyw daliadau am gyflawni eu rôl.

12. **MATERION CYNGOR SIR CONWY - Y CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

  Rhoddodd y Cynghorydd Lloyd ddiweddariad ynghylch amrywiol faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor Sir.

  Bydd y mater ynghylch Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn 2026 yn cael ei benderfynu gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ym mis Rhagfyr 2026.

  Roedd y sesiynau teithiol a gynlluniwyd gan Rhun ap Gareth, Prif Weithredwr CBSC, wedi'u gohirio oherwydd salwch. Bydd posteri'n cael eu gosod i hysbysebu'r sesiynau teithiol pan fyddant yn ailddechrau.

13. **CYNHALIAETH ADNODDAU O FEWN ARDAL Y CYNGOR CYMUNED**

a. **Maes Chwarae Betws yn Rhos/Llanelian**

Mae'r Clerc wedi cysylltu â David Dudley, Arolygydd Meysydd Chwarae CBSC, a fydd bellach yn cael tri dyfynbris ar gyfer y gwaith. Yna, mater i'r Cyngor Cymuned fydd dewis y cyflenwr. Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

Roedd y Clerc wedi hysbysu Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Betws yn Rhos bod y cais am grant wedi bod yn llwyddiannus**.** Roedd ateb wedi ei gael yn diolch i'r Cyngor am ei gwaith.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Bennaeth Ysgol Betws yn Rhos i ofyn am ffotograffau o'r murlun a'r ystafell ddosbarth awyr agored, er mwyn eu hanfon ymlaen at Gronfa'r Parc Solar, a ddarparodd y grant ar gyfer cwblhau'r gwaith.

b. **Diffibrilwyr**

Gwiriwyd y ddiffibriliwyr ar 16fed Medi2026 ac roeddent mewn cyflwr da.

Derbyniodd y Clerc ymateb gan Humpherys Signs yn cynnwys manylion yr arwyddion diffibrilwyr sydd ar gael. Rhannwyd y wybodaeth, ond nodwyd nad oedd yr arwyddion yn addas. Adroddodd y Cynghorydd Gwenda Davies y dylai'r arwyddion fod ar gael yn eu llyfrgell. Bydd y Clerc yn gwneud cais pellach.

c. **'Yr Hwb'**

Mae gwirfoddolwyr yn dal i fod eu hangen i oruchwylio'r sesiynau a gynhelir rhwng 9:00yb a 12:00yp bob bore Mawrth ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos.

d. **Gwelyau blodau**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu planhigion newydd. Mae nifer o sylwadau cadarnhaol wedi ei derbyn gan drigolion y pentref. Fydd planhigion ychwanegol yn cael ei plannu.

e. **Cyfleuster Toiledau yn Llanelian**

Adroddodd y Clerc fod Lanyon Bowdler, Cyfreithwyr, Conwy, yn bwrw ymlaen â'r brydles gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Mae Gemma Wynne (Cyfreithiwr) yn gofyn yn gyson am ddiweddariadau. Mae CBSC wedi rhannu dogfennau, ond nid yw'r brydles ei hun wedi ei derbyn hyd yma.

Rhannodd y Clerc y wybodaeth ganlynol ynghylch costau cyfleustodau:

1. Trydan – Ionawr 2026: £42.52; Chwefror 2026: £38.39; Mawrth 2026: £42.50; Ebrill 2026: £39.46. Mae'r rhan fwyaf o'r gost yn deillio o'r taliadau sefydlog.
2. Dŵr – 29/4/2025 i 13/10/2025: £127.39, sy'n cyfateb i tua £256 y flwyddyn.
3. Cadarnhawyd nad oes unrhyw ardrethi busnes yn daladwy.
4. Nid oes unrhyw asbestos yn yr adeilad.

Daeth yn amlwg bod CBSC wedi adnewyddu nifer o doiledau cyhoeddus cyn eu trosglwyddo i Gynghorau Cymuned lleol. Roedd Gemma Wynne wedi ysgrifennu at CBSC yn gofyn am adnewyddu'r bloc toiledau, yn enwedig y ffenestr do, y cafnau a'r byrddau ffasgia. Derbyniwyd ymateb yn nodi bod CBSC wedi asesu'r blociau toiledau yr oedd angen eu hadnewyddu a bod 11 o doiledau cyhoeddus ledled y sir wedi'u hadnewyddu. Nid oes cyllideb bellach ar gael ar gyfer gwaith ychwanegol.

Bydd Gemma Wynne yn mynd ar drywydd y ddogfen brydles.

Mae'r manylion wedi ei rhannu gyda Zurich Insurance, ac mae'n debygol y bydd y dyfynbris gwreiddiol o £613.90 (sy'n cynnwys yswiriant blynyddol arferol y Cyngor) yn cynyddu. Unwaith y bydd y brydles wedi'i chwblhau, bydd y Clerc yn cael dyfynbris arall er mwyn cymharu'r costau.

f. **Materion Cyffredinol**

Tir yn Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Maes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio offer peiriannau. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau. **Dim diweddariad**

Mae'r Clerc wedi cysylltu â Mel Elham i ddarparu dyfynbris ar gyfer ail-baentio'r ddau giosg ym Metws yn Rhos a Dolwen. **Manylion yn aros.**

Mae'r Clerc wedi hysbysu ERF yng Nghyngor Sir Conwy bod angen i'r Cyngor Sir asesu'r arwyddion yn y lleoliad ac y dylid ystyried arwydd 'ARAF' cyn y tro ar Ffordd Galch, Llanelian lle mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd.

Diweddariad gan ERF wedi ei dderbyn 4/8/2026 fod y mater wedi cael ei yrru i'r adran berthnasol. Dim diweddariad ychwanegol.

Mewn perthynas â'r hysbysfwrdd ger y siop yn Betws yn Rhos a gafodd ei ddifrodi, bydd y Cynghorydd John Evans yn symud ymlaen gyda'r gwaith atgyweirio ac yn cael persbecs newydd.

Mae y Clerc wedi diweddaru ERF am problemau ar y ffyrdd canlynol,

- Mae'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain o Tan y Wal, Dolwen, i Dawn, heibio Fron Uchaf, yn mynd yn dagfeydd wrth i gerbydau mawr geisio teithio ar hyd y ffordd. Gofynnwyd i asesiad gael ei gynnal i ystyried gosod arwydd "Anaddas i Gerbydau Trwm" ger Tan y Wal.

Derbyniwyd diweddariad ar 7fed Awst 2026 gan CBSC yn nodi bod gwaith clirio llystyfiant i'w wneud ac, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, y bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal i ystyried a fyddai gosod arwyddion 'Anaddas ar gyfer

Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV)' yn briodol. Nodwyd mai arwyddion cynghorol yn unig yw'r arwyddion hyn ac nad ydynt yn gwahardd mynediad yn gyfreithiol.

Bydd y Clerc yn gofyn, unwaith y bydd y gwaith clirio llystyfiant wedi'i gwblhau, a ellir trefnu ymweliad safle gyda un o'r Cynghorwyr. Dim diweddariad ychwanegol.

- Mae nifer o dai ar hyd Ffordd Abergele, Betws yn Rhos, yn ardal cod post LL22 8AF, wedi gosod conau a/neu ffensys cadwyn wrth fynedfeydd eu dreifiau, gan achosi rhwystr ar y ffordd gan fod yr holl fannau pasio ar gyfer cerbydau wedi'u rhwystro.

  Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio ar 7fed Gorffennaf 2026, gan y credid bod rhan o'r Ceisiadau Cynllunio ar gyfer y cartrefi yn nodi bod angen darparu mannau pasio ar y dreifiau. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yma. Dim ymateb hyd yn hyn.

- Addasrwydd Groes Road, sy'n arwain o Hen Golwyn i Lanelian, ar gyfer cerbydau hir a thrwm. Bu sawl digwyddiad lle mae cerbydau o'r fath wedi mynd yn sownd ger Fron Farm. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl asesu'r ffordd er mwyn penderfynu a ellid gosod arwyddion yn nodi ei bod yn "Anaddas i Gerbydau Hir/Trwm".

  Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad hyd yma.

- Nid oes arwyddion bellach i ddynodi pentref Dolwen ar y ffordd ger y fynedfa i Heronwater ar y B5381, cyn y bont dros yr afon, nac ar y B5381 ger y Felin wrth ddod i lawr y bryn i'r pentrefan. Gofynnwyd iddynt gael eu ailosod.

  Derbyniwyd diweddariad ar 21ain Awst 2026 gan ERF yn nodi y bydd swyddog yn ymweld â'r safle pan fydd yn yr ardal nesaf er mwyn cynnal asesiad llawn o'r sefyllfa. Dim diweddariad ychwanegol

  Mae ceuffos a thwll yn y ffordd ar y B5381 ger y gyffordd ar gyfer Parc Carafanau Hunters Hamlet, a allai achosi difrod i gerbydau.

Derbyniwyd diweddariad ar 5ed Awst 2026 gan ERF yn nodi bod y mater wedi'i anfon ymlaen at yr adran berthnasol er mwyn gweithredu y broblem

Mae ffos wedi'i hatgyweirio'n wael ar y B5381 wrth y groesffordd a elwir yn gyffredin yn Groesffordd Garnedd. Credir y gallai'r gwaith fod wedi'i wneud gan Dŵr Cymru, ac ystyrir bod yr atgyweiriad i'r briffordd yn anfoddhaol.

Derbyniodd y Clerc alwad gan ERF yn nodi y byddai'r mater yn cael ei ymchwilio. Dim diweddariad ychwanegol

- Roedd Clerc wedi cysylltu ag ERF bod dwy wrthdrawiad traffig ar y ffyrdd wedi digwydd yn ddiweddar yng Nghroesffyrdd Garnedd ar yr B5381 aci ofyn, oherwydd y gweledegdd gwael wrth y cyffyrdd ildio ffordd yn y groesffordd, a ellid gosod drych traffig er mwyn galluogi defnyddwyr y ffordd i gael golwg well a mynd i mewn i'r B5381 yn ddiogel

  Adroddodd ERF nad oeddent yn ystyried bod hyn yn broblem ac na fyddai drych traffig yn cael ei osod.

- Cododd y Cynghorydd Irwedd Griffiths bryder ynghylch gwrychoedd a choed oedd wedi gordyfu ac yn effeithio ar draffig sy'n pasio ar Ffordd Galch, sef ffordd ddiddosbarth rhwng Llanelian a'r B5113, ger Dolgraian Cottage

  Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i ERF am y mater

14. **CYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Roedd y cais praesept am £22,000 gyda £2,558.25 yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Conwy. Taliad o £7,334.00 wedi cael ei wneud ar 17 Ebrill 2026 ac ar 14 Awst 2026 hefo un taliad arall ar 11 Rhagfyr 2026.

Derbyniwyd hysbysiad yn nodi bod angen cyflwyno'r dogfennau ar gyfer praesept 2027/2028 erbyn 15 Ionawr 2027. Cytunwyd y byddai

cyllideb ragarweiniol yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd (ni chynhelir cyfarfod ym mis Rhagfyr), er mwyn gallu cytuno ar y cais praesept terfynol yng nghyfarfod mis Ionawr 2027.

15. **FFERMYDD GWYNT AR Y TIR AC AR Y MÔR – AWEL Y MÔR/GWYNT Y MÔR/MONA**

Overview

About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps

Our work so far Interactions with other marine users

Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map

Mae'r pwnc hwn yn parhau ar yr agenda ac mae unrhyw ddatblygiadau yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod. Bydd unrhyw gynlluniau neu geisiadau pellach yn cael eu monitro'n agos. Mae datblygiad Awel y Môr yn mynd rhagddo.

Roedd y Clerc yn mynd i gyfarfod hefo cynrhychiolydd Fferm Wynt Mona ac fe wnaith ddiweddaru y Cyngor.

Nid oes diweddariad ffurfiol ynghylch y cynnig ar gyfer tyrbinau gwynt a pharc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y mater yn cael ei fonitro.

16. **Y GADLAS**

Dim awgrymiadau ar gyfer erthygl.

17. **UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, caewyd y cyfarfod am 9.20yh.

CADEIRYDD …… Glena Humphrey

CLERC …… Mel Jones

DYDDIAD: 2 fed Tachwedd 2026